

## CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED

CYFARFOD MICROSOFT TEAMS am 7.30 p.m. 21ain o Fis Mehefin 2021

**Yn Bresennol:** Cyng. Bryan Davies (Cadeirydd), Cyng. Delme Phillips, Cyng. Elfed Davies, Cyng. Elsbeth Page a'r Cyng. Eurig Rees.

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Eifion Jones, Cyng. Phillip Jones, Cyng. Julian Evans a'r Cynghorydd Sir Irfon Jones.

### **Materion Personol / Cyhoeddiadau**

Anfonodd y Cadeirydd longyfarchiadau ar ran y Cyngor at y Cyng. Wyn Evans ar ddod yn dat-cu yn dilyn genedigaeth ei wyres Nansi Gwen.

Mynegodd y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd) gydymdeimlad dwys ar ran y Cyngor â'r Cyng. Phillip Jones a'i deulu yn dilyn farwolaeth ei dad, Mr Henry Jones, yn ddiweddar.

<b>20</b>	<b><u>Datgelu Buddianau Personol</u></b> Dim
<b>21</b>	<b>Cadarnhau'r Cofnodion - 17.05.21</b> Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17.05.21 yn gofnod cywir gan y Cyng. Elsbeth Page ac eiliwyd gan y Cyng. Elfed Davies.
<b>22</b>	<b><u>Materion yn Codi o'r Cofnodion</u></b> <b>a.</b> <u>Gwasanaeth Bws 460</u> - y mater yn parhau - Mae'r Clerc i wneud holiadur er mwyn cofnodi'r galw am gwasanaeth bws rheolaidd drwy Hermon. <b>b.</b> <u>Safle Ail-gylchu</u> -y mater yn parhau - Dim datblygiad newydd ar hyn o bryd. <b>c.</b> <u>Cylch Meithrin Bro Elfed</u> -Y Cyng. Elfed Davies i roi adroddiad i'r Cyngor nes ymlaen yn y cyfarfod. <b>d.</b> <u>Cais am bin sbwriel yng Ngwmdud</u> - dal i aros am ymateb oddi wrth y Cyngor Sir. <b>e.</b> <u>Cyfleusterau Cyhoeddus</u> - ymestyn oriau agor a chostau cynnal a chadw'r bloc toiledau. <b>f.</b> <u>Carafanau statig</u> - Nodwyd cynnydd amlwg yn yr ardal. Cyng. Bryan Davies a Julian Evans i edrych mewn i'r sefyllfa a roi adroddiad ar eu canfyddiadau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned. <b>g.</b> <u>Materion Priffyrdd adroddwyd ar 17.05.21</u> Heb gael ymateb i'r problemau hirsefydlog canlynol (adroddiadau wedi eu danfon dros o leia dwy flynnedd ond gael unrhyw waith wedi'i wneud i wella'r sefyllfa). Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Cyngor Sir am y rhain eto fel materion s'yn gofyn am flaenoriaeth, i gael sylw ar frys o ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers eu nodi yn gyntaf fel peryglon ac adroddiadau amdanynt wedi'u danfon i'r Cyngor Sir, ac hefyd maint y dirywiad sydd wedi digwydd ers hynny. SA33 6EU - Blaenycod, Wernant i Clunbach-Gwyneb y ffordd mewn cyflwr difrifol o wael. SA33 6ET - Blaenycod,-Angen bwmp atal cyflymder i dawelu traffig bob pen o'r ardal adeiledig a hefyd gostyngiad yn y terfyn cyflymder i 30 mya. SA33 6SR - Hermon-rhwng Capel Hermon a Waunolau-Rhych dwfn yn y ffordd a gratiau rhydd. Mae'r gwter ar bwys Llysnewydd, Cynwyl Elfed wedi'i glyrio. Pob mater arall wedi'u reportio ac yn aros am ymateb. Ynglyn â phiben ô Cware Foel Fach dros Afon Gwili sydd wedi torri ac yn gorwedd yn yr afon- Mae'r Clerc wedi siarad a Gareth o GD Harries a'i Fab, bydd yn ymweld â'r safle ddydd Mawrth 22 o Fehefin a bydd yn rhoi gwybod i'r Clerc am ei ganfyddiadau.

<p><b>23.</b></p> <p><b>a.</b></p> <p><b>b.</b></p> <p><b>c.</b></p> <p><b>d.</b></p>	<p><b><u>Gohebiaeth</u></b> Mae copiau o'r holl e-byst perthnasol a dderbyniwyd wedi'u hanfon at Gynghorwyr cyn y cyfarfod.</p> <p><b><u>Heddlu Dyfed Powys</u></b></p> <p><b><u>Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed</u></b></p> <p><b><u>ymgyngoriadau cyfredol -</u></b> 1.Ymgyngoriad Uwch-Gynllun Tai ac Adfywio. Mae Cyngor Sir Gâr yn datblygu ei Uwch-gynllun Tai ac Adfywio10 mlynedd newydd i lunio dyfodol tai yn Sir Gaerfyrddin. Er mwyn cymryd rhan yn yr arolwg, ymwelwch â'r linc uchod. 2. Strategaeth Casglu Gwastraff - i gymryd rhan yn yr arolwg mae angen ymweld ar tudalen we <a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/ymgyngori-a-pherffomidad/ymgyngoriadau-actif/strategaeth-casglu-gwastraff-sir-gaerfyrddin-yn-y-dyfodol/">https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/ymgyngori-a-pherffomidad/ymgyngoriadau-actif/strategaeth-casglu-gwastraff-sir-gaerfyrddin-yn-y-dyfodol/</a> Bydd yr arolwg yn cau ddydd Mercher, 7 Gorffennaf. Penderfynwyd gan y Cyngor bod y Clerc yn postio gwybodaeth berthnasol a dolenni arolwg ar wefan y Cyngor er mwyn galluogi gymaint o phobl â phosibl i gymryd rhan. Cadeirydd â Chlerc hefyd i gwblhau yr arolwg ar ran y Cyngor Cymuned.</p> <p><b><u>Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Cymuned -</u></b> i'w gynnal drwy zoom ar Orffennaf 2il am 3 - 4.30 p.m. Prif feysydd trafod y cyfarfod bydd Polisi Teledu Cylch Cyfyng ac ymgyngoriadau ar Gasglu Gwastraff a'r Uwch-gynllun Tai ac Adfywio. Gall cynghorwyr sy'n dymuno mynychu gysylltu â Llinos Evans drwy e.bost i gofrestru. <a href="mailto:llosevans@sirgar.gov.uk">llosevans@sirgar.gov.uk</a></p>						
<p><b>24</b></p>	<p><b><u>Cynllunio</u></b> PL/01932- Adeiladu annedd a gweithdy newydd ar dir gerllaw Rhydygwin SA33 6SU (gynt o dan rhif: PL/00484) Penderfynnodd y Cyngor yn unfrydol gefnogi cais cynllunio PL/01932 ac mae'r Clerc i ysgrifennu llythyr i Adran Cynllunio Cyngor Sir Gar yn cymeradwyo eu cefnogaeth.</p>						
<p><b>25(a)</b></p> <p><b>b.</b></p>	<p><b><u>Taliadau a Chyllud</u></b></p> <table border="0"> <tr> <td>Cyflog y Clerc - 31.05.2021</td> <td>£214.15</td> </tr> <tr> <td>Mr Elfyn Williams-Internal Audit and expenses</td> <td>£ 70.00</td> </tr> <tr> <td>Zurich Municipal Insurance</td> <td>£596.76</td> </tr> </table> <p>Cytunodd y Cyngor i wneud y taliadau uchod.</p> <p>Archwiliad Blynyddol - Cwblhawyd yr Archwiliad Mewnol a thrafodir canfyddiadau'r archwiliad ac mae argymhellion ynglyn â'r ffurflen asesu risg a'r rheoliadau ariannol i'w cwblhau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Awgrymodd y dylai'r Cyngor adolygu ei gyfraniadau a wnaed o dan Adran 137. Yn y dyfodol, dylid ystyried pwerau eraill sydd ar gael i gefnogi'r taliad lle bo hynny'n briodol. Gwnaed un newid i'r ffurflen flynyddol, ar dudalen 4. Yn flaenorol £4410 oedd y cyfanswm taliadau a wnaed o dan Adran 137, cafodd hwn ei gywiro i £4430 oherwydd dylai un taliad o £20 (Apêl Teganau Nadolig) fod wedi'i restru o dan Adran 137 ac nid o dan weinyddiaeth. Penderfynodd y Cyngor gymeradwyo'r Datganiadau Cyfrifyddu a'r datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dilyn y cywiriad a wnaed i'r ddogfen. Mae'r ddogfen i gael ei chydlofnodi gan y Cyng. Bryan Davies (Cadeirydd).Mae'r Ffurflen Flynyddol yn barod i'w hanfon i Swyddfa Archwilio Cymru erbyn 30 Mehefin. Mae'r Cyngor yn dymuno estyn diolch i Mr Elfyn Williams am ei waith diwyd a thrylwyr wrth gynnal yr archwiliad mewnol a hefyd am yr adborth adeiladol a gynhwyswyd yn ei adroddiad a'r argymhellion defnyddiol a wnaed.</p>	Cyflog y Clerc - 31.05.2021	£214.15	Mr Elfyn Williams-Internal Audit and expenses	£ 70.00	Zurich Municipal Insurance	£596.76
Cyflog y Clerc - 31.05.2021	£214.15						
Mr Elfyn Williams-Internal Audit and expenses	£ 70.00						
Zurich Municipal Insurance	£596.76						

<p><b>26.</b></p> <p><b>a.</b></p> <p><b>b.</b></p> <p><b>c.</b></p> <p><b>d.</b></p> <p><b>e.</b></p> <p><b>f.</b></p> <p><b>g.</b></p>	<p><b><u>Materion Priffyrdd</u></b></p> <p>Penderfynwyd gan y Cyngor bod y Clerc i gysylltu â Cyngor Sir Gaerfyrddin ynglyn a:</p> <p>Blaenycoed SA33 6EU - Wernant - Clunbach - Mae wyneb y ffordd mewn cyflwr ofnadwy. Mater o flaenoriaeth.</p> <p>Blaenycoed SA33 6ET-Mae angen twmpath lleihau cyflymder ar bob pen o'r ardal adeiledig i arafu traffig. Hefyd mae angen lleihau terfyn cyflymder o fewn yr ardal adeiledig i 30 milltir yr awr. Mater o flaenoriaeth.</p> <p>Capel Hermon i Waunolau - Cwmp yn y ffordd yn creu rhych drwy Hermon a gratiau rhydd yn creu peryg difrifol. Gwelwyd ceir yn gyrru ar ochr anghywir y ffordd wrth iddynt osgoi'r rhychiau/tyllau a'r gratiau rhydd. Mae angen ymdrin â'r mater hwn fel blaenoriaeth.</p> <p>SA33 6EY - cyfagos a Green Villa , Blaenycoed - Tyllau mawr yn y ffordd.</p> <p>SA33 6SU - Tro Rhydygwin - angen "Cats Eyes" ar y ffordd.</p> <p>SA33 6ST - Rhwng Black Lion a chyffordd Nant yr Esg - Grat rhydd yn y ffordd - Peryg.</p> <p>SA33 6SU - Rhwng Tro Rhydygwin a Ffos-y-ffin - Grat wedi cwmpo gan adael twll mawr yn y ffordd. Peryg difrifol i ddefnyddwyr y ffordd.</p>
<p><b>27.</b></p> <p><b>a.</b></p> <p><b>b.</b></p> <p><b>c.</b></p> <p><b>d.</b></p> <p><b>e.</b></p>	<p><b><u>Unrhyw Mater Arall</u></b></p> <p><u>Cylch Meithrin</u> - Adroddodd y Cyng. Elfed Davies wrth y Cyngor derbyniwyd ceisiadau ar gyfer y swyddi gwag a threfnwyd cyfweiliadau. Nid oedd yr un o'r ymgeiswyr yn bresennol ar ddiwrnod y cyfweiliadau.</p> <p><u>Neuadd Cymunedol Cynwyl Elfed</u> - Cyfarfod wedi'i gynnal ar 26 Mai-cafwyd adroddiad gan y Cyng. Elfed Davies a fynychodd. Dywedodd bod pwyllgor y neuadd eisiau gweld cynrychiolwyr o'r holl sefydliadau sy'n defnyddio'r neuadd i gymryd rhan weithredol wrth gefnogi pwyllgor y neuadd. Codwyd mater y maes parcio hefyd. Daethpwyd i'r casgliad mai eiddo'r neuadd yw'r maes parcio ac o'r herwydd nid oes gan drigolion eiddo cyfagos hawliau dros ddefnyddio lleoedd parcio'r neuadd a ddylai gael eu gadael yn rhydd i bobl sy'n mynychu digwyddiadau yn y neuadd.</p> <p><u>llwybr cyhoeddus i Ysgol Nantcwmrhys</u> - adroddwyd bod gordyfiant ar y llwybr troed a bod y sticil ar ochr Hermon mewn cyflwr gwael.</p> <p><u>llwybr cyhoeddus Brynelfed-Cadwgan-Cribyn</u> - adroddwyd bod pont fach i gerddwyr ar y llwybr cerdded dros y nant rhwng Cadwgan a Chribyn mewn cyflwr gwael. Penderfynodd y Cyngor bod y Clerc i ysgrifennu at Cyngor Sir Gar am y problemau a nodwyd.</p> <p>Penderfynodd y Cyngor gan bod yr angen yn cynyddu i gadw cofnodion y Cyngor yn electronig, ei bod yn angenrheidiol i'r Cyngor fuddsoddi mewn gliniadur sy'n addas ar gyfer y gwaith. Ar hyn o bryd mae'r Clerc yn defnyddio ei gliniadur ei hun ar gyfer gwaith y Cyngor. Mae'r Clerc i wneud ymholiadau erbyn y cyfarfod nesaf.</p>
<p><b>28</b></p>	<p><b><u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u></b></p> <p>Nos Lun 19fed o fis Gorffennaf 2021 am <b>19.30 awr</b></p> <p>Daeth y cyfarfod i ben am 20.45 awr</p>

**Arwyddwyd.....**

**Dyddiad.....**